



CREATIVITY IN THE UK

**COFNODION CYFARFOD ANFFURFIOL O FWRDD FESTIVAL 2022 LTD DRWY
GYNHADLEDD FIDEO DDYDD IAU 07 EBRILL 2022, 19:30 – 21:00**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED")

Presennol:

Y Fonesig Vikki Heywood DBE (VH)	Cadeirydd y Bwrdd, Anweithredol
Faraz Tasnim (FT)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr. Hayaatun Sillem CBE (HS)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Rob Smith MBE (RS)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Yr Athro Andrew Thompson CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr. Maggie Aderin-Pocock MBE (MAP)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Roger Lewis (RL)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru
Dr. Bridget McConnell CBE (BMcC)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli'r Alban

Arsyllwyr yn Bresennol:

Emma Squire CBE (DA)	Llywodraeth y DU, Yr Adran Diwylliant Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")
Carrie Cooke (CC)	Llywodraeth y DU, Yr Adran Diwylliant Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")
Matt Reader (MR)	Llywodraeth y DU, Yr Adran Diwylliant Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")

Yn bresennol:

Martin Green CBE (MG)	Prif Swyddog Creadigol
Phil Batty (PB)	Cyfarwyddwr Gweithredol
Ian Reid (IR)	Prif Swyddog Gweithredol
Caroline McGrory (CMcG)	Prif Swyddog Cyfreithiol
David Gray (DG)	Prif Swyddog Ariannol
Bea Hendry (BH)	Pennaeth Rhaglenni
Adel Al-Salloum (AAS)	Pennaeth Partneriaethau Creadigol
Sam Hunt (SH)	Cyfarwyddwr Rhaglen
John Darnbrook (DB)	Pennaeth Integreiddio Busnes
Laura O'Donnell (LO'D)	Rheolwr Prosiect Cynorthwyol
Laura O'Flynn (LO'F)	Rheolwr Llywodraethu (Cymryd nodiadau)

**Tim Creadigol yn Cyflwyno
(eitem 2a):**

Dr. Nelly Ben Hayoun (DS)	Cyfarwyddwr Creadigol, Tour De Moon
Dr. Frank Marchis (FM)	Uwch Seryddwr Planedol, SETI
Rob Povey (RP)	Cynhyrchydd, Gemau /Sgyrsiau'r Lleud
Nick Anderson	Cynhyrchydd, Profiadau'r Lleud

30/22 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol a nododd fod hon yn noson anffurfiol wedi'i neilltuo ar gyfer golwg fanwl ar Tour de Moon.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Amali de Alwis MBE, Roger Mosey (RM), Priya Lakhani OBE, Liam Hannaway, ynghyd â Richard Walsh, Gerwyn Evans, Louise Hyland a Lucy Bailey.

31/22 Tour de Moon: Golwg Fanwl

Croesawodd y Cadeirydd dîm prosiect Tour de Moon i'r cyfarfod.

Dywedodd y tîm fod Tour de Moon yn osodiad cyhoeddus am ddim ar raddfa fawr sy'n cynnwys digwyddiadau ymgolli a rhai byw mewn 3 dinas – Caerlŷr, Newcastle, a Southampton – a llawer mwy yn ymgysylltu drwy Orymdaith y Lleuad.

Rhoddodd y tîm y wybodaeth ddiweddaraf am feysydd gan gynnwys manylion y canlynol:

- Ysbrydoliaeth ar gyfer y prosiect: Pam y lleuad?
- Cynulleidfaoedd targed, ymgysylltu â'r cyhoedd ac ehangu cyfranogiad
- Lleoliadau, safleoedd a dyddiadau
- Diweddariadau ar bob un o'r 8 o linyddau rhaglen
- Cynnydd y bwrsariaethau
- Cynlluniau cyfathrebu a gwefan

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am y cyflwyniad a themlai ei fod yn hynod ysbrydoledig a chyffrous. Gwnaeth trafodaethau'r Bwrdd gynnwys:

- **Cydluniant y rhaglen a'r amserlenni:** Trafododd y Bwrdd gyda'r tîm os oeddent yn fodlon bod yr holl gydrannau a grëwyd o'r 8 llinyn rhaglen yn gwreiddio o fewn yr amserlen fer. Roedd NB yn teimlo ei fod yn foment gyffrous i'r prosiect gan fod y cynnwys a dderbyniwyd hyd yn hyn wedi rhagori ar eu disgwyliadau. Derbyniodd NB fod miloedd yn cymryd rhan, y gellir bod wedi'u gwasgaru gan gyflwyno heriau, ond mae TDM yn ystyried eu hunain yn aml dro – gyda channoedd o bobl greadigol yn gweithio'n llawen gyda'r angerdd yn gwireddu creadigrwydd ac yn creu prosiect hollol ddychmygus.
- **Fformat Sgyrsiau'r Lleuad.** Dywedodd RP y bydd ystod ehangach o leisiau yn cael eu cynnwys yn y rhaglen i sicrhau bod hyn yn parhau'n gynhwysol, o artistiaid i lunwyr polisi, gweithwyr bywyd nos i'r gymuned. Bydd y Sgyrsiau'n hwyluso trafodaeth ar bynciau fel lles, hinsawdd, bywyd y tu hwnt i'r ddaear; gan annog sgyrsiau gweithredol. Bydd cymysgedd o banelwyr a chyfranwyr yn cael eu defnyddio, a thrafodaethau'n cael eu hwyluso. Rhoddwyd pwnc enghreifftiol: "*Sut beth fyddai sglefrio ar y lleuad, o ystyried effeithiau disgyrchiant.*"
- **Cynlluniau cyfathrebu.** Amlinellodd NB eu bod yn canolbwyntio ar gydweithio â phartneriaid yn y cyfryngau sy'n benodol i'r gynulleidfa darged graidd. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod Gwasg Lleuad yn cael ei rhyddhau bob cylch Lleuad newydd. Rhoddwyd y bartneriaeth â WeTransfer fel enghraifft ac amlinellodd NB yr ymgysylltiad â Dazed ac i-D. Rhoddodd MG gefnogaeth i'r tîm a chadarnhaodd y gwaith sydd ar y gweill gyda TDM i adnewyddu'r strategaeth farchnata. Pwysleisiwyd bod angen i'r sefyllfa gydfynd â demograffeg y gynulleidfa graidd, ond hefyd lle bo'n bosibl i estyn allan at gynulleidfa ehangach a bod yn gynhwysol i bawb.
- **Bywyd ar ôl 2022 ar gyfer TDM.** Roedd NB wedi dechrau sgyrsiau gyda gwyliau hysbys eraill i gyflwyno cynnwys TDM. Rhoddodd NB enghraifft

hefyd o sut y bydd y taflunyddion golau yn cael eu rhoi i glwb lleol i helpu i ysbrydoli creadigrwydd pellach. Bydd y tîm yn parhau i gefnogi datblygiad sgiliau a rhannu'r hyn a ddysgwyd i gefnogi gweithgareddau etifeddol yn y sector.

- **Ymgysylltu cynhwysol â chynulleidfaoedd.** Holodd BM a oedd y rhaglen wedi'u cyfyngu i ddemograffeg 18 i 25 oed. Cadarnhaodd y tîm fod llawer o'r digwyddiadau byw yn y tair prif ddinas yn 18+, yn bennaf oherwydd lleoliadau. Fodd bynnag, cadarnhawyd nad oes terfyn oedran uchaf ar y rhaglen ac y byddai croeso i bawb. Rhoddwyd gorymdaith TDM fel enghraifft o elfen o'r prosiect a fyddai'n ysbrydoli pob oedran.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm unwaith eto am fod yn bresennol ac am eu hangerdd am y prosiect. Gadawodd y tîm creadigol y cyfarfod.

32/22 Gweithrediadau Mewnol a Myfyrdodau

Dywedodd FT fod y prosiect wedi'i gyfleu'n glir, gydag egni a thrwy gyflwyniad ysbrydoledig y dylai'r Bwrdd ei nodi.

Cododd FT bryder ynghylch cyfyngu'r gynulleidfa i 18+ ac a yw plant yn methu mynychu. Rhoddodd MG sicrwydd y bydd y gweithgareddau dydd ar yr orymdaith ar gael i bawb. Cadarnhawyd y bydd unrhyw ddigwyddiad sy'n 18+ oed yn cael ei farcio'n glir ar y wefan ac yn y lleoliad, ond y byddai cydbwysedd priodol dros y rhaglen gyfan sydd ar gael i'r cyhoedd. Teimlwyd bod bod yn agored i ddemograffeg y tu hwnt i 25 oed yn rhan bwysig o adborth y Bwrdd.

Estynnodd HS y drafodaeth hon ymhellach a theimlai'n ansicr ynghylch pecynnu 'cynulleidfa darged' mewn negeseuon allanol i sicrhau bod y prosiect yn wirioneddol amrywiol o ran oedran a chynrychiolaeth. Derbyniodd HS y bydd llawer o'r gynulleidfa darged am ymgysylltu ond ein her yw sicrhau nad yw unigolion y tu allan i'r gynulleidfa graidd yn cerdded i fwrdd heb eu cyffroi gan y cynnig.

Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth fanwl ar bwnc y bwrsariaethau. Gofynnodd y Bwrdd am eglurder ynghylch lefel y sicrwydd a chafodd fanylion yr adolygiad a oedd yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Gweithredol o'r llinyn hwn o raglenni a sut mae'r risgiau allweddol yn cael eu rheoli a'u lliniaru.

Amlinellodd MG fod y bwrsariaethau, ar y cyfan, wedi bod yn ddull effeithiol o ymgysylltu ag ystod eang o bobl greadigol llawrydd, gyrfa gynnar a phobl ifanc. Mae'n parhau i fod yn risg y gall fod nifer fach o ddyfarniadau contract lle mae gwaith yn cael ei wneud ond nad yw gwaith yn cael ei gyflwyno'n gyhoeddus fel rhan o'r rhaglen oherwydd amrywiaeth o ffactorau. Cadarnhaodd MG i'r Bwrdd mai cyfrifoldeb y tîm rheoli yw sicrhau bod cynnwys yn cael ei adolygu a'i wella ar draws y deg prosiect. Atgoffodd MG y Bwrdd fod 30 o brosiectau ymchwil a datblygu wedi'u comisiynu cyn i 10 gael eu dewis a bod hyn yn elfen arferol o raglennu creadigol.

Atgoffodd MG y Bwrdd mai'r briff penodol ar gyfer TDM oedd cynhyrchu digwyddiad a fyddai'n ymgysylltu â'r ddemograffeg feirniadol 18-25 oed – yr ystod oedran mwyaf nodedig o anodd i'w denu. Datganwyd bod gan gynllun democrataidd a lluosedigrwydd cyflwyno'r prosiect a dewis penodol TDM bob amser elfennau o risg – ond yn ei farn ef dyma'r unig ffordd i ddylunio rhywbeth a oedd wirioneddol yn caniatáu i bobl ifanc greadigol archwilio eu dyfodol o dan werthoedd agored,



CREATIVITY IN THE UK

gwreiddiol ac optimistaidd; roedd hon yn egwyddor ac yn lefel risg y cytunodd y Bwrdd ei bod yn dderbyniol pan gymeradwywyd y comisiwn fel un o brosiectau Llywodraeth y DU. Mae'n parhau i fod yn elfen hanfodol bwysig i lwyddiant prosiect cyffredinol UNBOXED o 10 comisiwn.

Gofynnodd y Bwrdd am eglurhad pellach ar yr sgysiau TDM. Roedd y drafodaeth yn ymdrin â'r graddau y mae'r fformat, pynciau'r panel, y cyfranwyr a'r gwesteiwr yn cael eu curadu a'u hwyluso'n briodol er mwyn sicrhau rhaglen gytbwys o sgysiau, trafodaethau. Er bod unrhyw ddiwyddiad byw a gyflwynwyd yn peryglu'r Risg, mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i reoli'r rhaglen digwyddiadau sgysiau. Nodwyd na fyddai'r fformat yn drafodaeth yn unig ond y byddai cynnwys artistig hefyd yn cael ei gyflwyno i gynulleidfaoedd yn rhan o'r digwyddiad byw.

Gwnaeth ES sylwadau pellach ar y rhaglen sgysiau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r llinyn rhaglen hwn. Holodd ES a yw'r Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol yn rhannu archwaeth risg cyson am gynnwys.

Cafwyd trafodaeth a ddaeth i'r casgliad bod mwy o risg o raglennu trafodaethau oherwydd natur rydd y digwyddiad byw. Gwnaeth y Bwrdd hi'n glir y dylai'r disgwyliadau gael eu nodi'n glir o'r cychwyn cyntaf, cyfrifoldeb hwylusydd y panel yw sicrhau bod sgysiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, ac yn gyffredinol, rhaid i'r rhaglen o drafodaethau adlewyrchu gwerthoedd UNBOXED.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd galluogi siarad yn rhydd. Trafodwyd hefyd bod parhau i fod yn gynhwysol a chroesawu ystod eang o safbwyntiau yn hanfodol.

Rhoddodd AT fyfyrddod ar sut i sicrhau asesiad o'r hyn sy'n wleidyddol yn rhan o ystyriaeth y Bwrdd a'r Rheolwyr.

Ailbwysleisiodd ES ofyniad UNBOXED i gyflawni'r paramedrau strategol.

Roedd RL yn cefnogi'r cyfleoedd a gyflwynir gan risg greadigol pan gânt eu rheoli'n dda.

Cadarnhaodd y drafodaeth fod y Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol yn cydnabod her a risg eu goruchwyliaeth guradurrol mewn byd gwleidyddol iawn. Cytunwyd mai rôl UNBOXED yw sicrhau gŵyl a oedd yn cynnal yr egwyddor y byddai'n cynnal niwtraliaeth wleidyddol fel y'i diffinnir yn y concordat rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ac yn unol â pharamedrau strategol. Roedd y Bwrdd o'r farn y byddai'n amhosibl sicrhau nad oedd cyfranogwyr yn lleisio eu barn bersonol am wleidyddiaeth y tu allan i'r ŵyl, ond y gobai'th oedd y byddai comisiynu prosiectau a churadu rhesymeg yn helpu i sicrhau y gallai'r ŵyl aros y tu allan i'r maes sylwebaeth hwnnw. Cadarnhaodd MG fod hon yn sefyllfa a oedd yn glir i bob un o'r deg tîm.

Gofynnodd y Bwrdd i'r Swyddogion Gweithredol fonitro datblygiad y rhaglen hon yn ofalus, fel sy'n wir ar draws y 10 comisiwn, ac er bod y swyddogion gweithredol yn gwneud hyn fel proses ailadroddol roedd yn bwysig rhoi'r wybodaeth briodol i'r Bwrdd a'r prif gyllidwyr drwy gydol y broses.

Croesawodd MA y sgysiau fel offeryn ymgysylltu i archwilio bydysawd o bynciau a thrafodaeth. Roedd y Bwrdd yn falch o glywed cymaint o iaith STEAM yn dod drwodd

o gynifer o ffynonellau a gwyddonwyr gwybodus a gofynnodd a allai hyn fod yn fwy blaenllaw yn y marchnata.

Teimlai MG fod cydbwysedd bregus wrth hyrwyddo'r prosiect er mwyn caniatáu i gyffro ddatblygu i ymgysylltu â phobl yn ystod y digwyddiad byw. Roedd pryder y gallai gorhwyddo STEAM yn y cyfnod cynnar atal cynulleidfa iau.

Teimlai'r Bwrdd fod y prosiect yn cyfrannu'n sylweddol at flaenoriaethau addysg UNBOXED. Amlygwyd dimensiynau gwyddoniaeth y rhaglen yn benodol fel mantais.

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o drafodaeth y Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol.

Wrth gloi, nododd y Cadeirydd bwysigrwydd y sylwadau a godwyd yn y ddwy ran o'r cyfarfod a chroesawodd reolaeth weithredol y prosiect sy'n digwydd i sicrhau bod TDM yn cyflawni ar gyfer UNBOXED. Cydbwysedd curadu cynnwys, rheoli tîm creadigol, creu man agored ar gyfer cyfraniadau gan rwydwaith eang o unigolion creadigol, a dyfeisio llawer o waith gwreiddiol; yn gwneud fformat TDM yn hynod gyffrous ond hefyd yn gydbwysedd risg gofalus. Cydnabu'r Cadeirydd y cyfeiriad strategol i sicrhau bod TDM yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn agored i bawb ac yn cael ei gyflawni yn unol â'n hymrwymiaidau i'n pedwar cyllidwr Llywodraeth. Cytunodd y Cadeirydd i fyfrio ar hyn gyda'r Bwrdd Gweithredol dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

33/22 Unrhyw Fusnes Arall

Ni chodwyd 'Unrhyw Fusnes Arall'.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 21:00. Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod llawn nesaf y Bwrdd ar 21 Ebrill 2022 yng Ngogledd Iwerddon neu ar-lein os nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn bersonol.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:
Cyfarwyddwyr Bwrdd
Arsyllwyr Bwrdd
Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd:	13 Ebrill 2022
Dyddiad dychwelyd i'r Gweinyddwr:	14 Ebrill 2022
Dyddiad dosbarthu:	14 Ebrill 2022